CYFRES B5

# amserbeibl

Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4

Enw




DARLLENWCH
Actau 10: 1-8
a 23-48



ADNOD
ALLWEDDOL
Actau 10: 43

## Astudiaeth 3 Y Cristnogion Cynnar - Cornelius



**Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen**

Rhufeiniaid 10: 12 ac 13     Galatiaid 3: 27 a 28

Mae'r astudiaeth hon yn sôn am swyddog (neu ganwriad) yn y fyddin Rufeinig a ddaeth i gredu yn Iesu. Mae ei stori ef yn bwysig gan ei bod yn dangos nad ar gyfer yr Iddewon yn unig yr oedd yr efengyl. Mae pobl nad ydynt yn Iddewon ("y Cenhedloedd" yw'r enw arnynt yn y Beibl) yn gallu cael eu hachub ar yr un telerau'n union â'r Iddewon.


C **Beth oedd enw'r swyddog?** 1


C **Ysgrifennwch dri pheth a ddywedir amdano?** 3

C **Esboniwch YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth ddywedodd angel Duw wrtho am ei wneud.** 2

C **Ar y map hwn, nodwch enwau:-** 2

1. Y dref lle'r oedd y canwriad yn byw.
2. Y dref lle'r oedd Pedr yn aros.






C **Rhowch gylch o gwmpas nifer y dynion a aeth i nôl Simon Pedr.** 1

7     2     3     5

Mae'r ffaith fod Duw wedi anfon angel at Cornelius gan ddweud sut i ddod o hyd i Pedr yn dangos bod Duw yn awyddus iawn i'r dyn hwn ddysgu sut y gellid maddau ei bechodau. Mae Duw yn awyddus iawn i chithau ddeall a chredu ei Newyddion Da hefyd.

Dewch i gael gweld beth ddigwyddodd pan ddaeth Pedr i dŷ Cornelius.

**C Rhowch ✓ neu ✗ i ddangos a yw'r brawddegau'n GYWIR neu'n ANGHYWIR.**

Roedd Cornelius ar ei ben ei hunan yn y tŷ pan gyrhaeddodd Pedr. ...............

Arhosodd Pedr am wythnos cyn mynd. ...............

Syrthiodd Cornelius wrth draed Pedr a'i addoli. ...............

Roedd Pedr yn falch o weld Cornelius yn ei addoli. ...............

Dywedodd Cornelius eu bod yn barod i glywed neges Duw iddynt. ...............

5

Pan siaradodd Pedr â'r bobl yn y tŷ, soniodd wrthynt am yr Arglwydd Iesu.

**C Yn adnodau 36-43, cawn grynodeb o'r hyn a ddywedodd Pedr. Rhowch rifau'r adnodau i ddangos y gwahanol bethau a ddywedodd am Iesu:-**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sôn am ei groeshoelio. | | Sôn am ei fywyd, ei ddysgeidiaeth a'i wyrthiau. | |
| Sôn amdano'n atgyfodi. | | Sôn am ei benodi'n Farnwr pawb. | |

4

Yna, soniodd Pedr wrth y bobl yma o'r Cenhedloedd fod modd iddynt gael maddeuant pechodau trwy enw Iesu.

**C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.**

1

Y diwrnod hwnnw, credodd Cornelius a phawb oedd yn gwrando'r gair yn ei dŷ yn yr Arglwydd Iesu ac felly daethant yn Gristnogion. Roedd y bobl hyn ymhlith y rhai cyntaf o'r Cenhedloedd i gredu yn yr Arglwydd Iesu.
Heddiw, does dim ots pa liw ydym nac i ba hil neu grefydd yr ydym yn perthyn. Mae Duw yn abl ac yn barod i achub pawb sy'n ymddiried yn Iesu.

**C I grynhoi prif bwynt yr astudiaeth hon, ysgrifennwch eiriau Rhufeiniaid 10: 12 ac 13.**

1

**C YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN, ysgrifennwch beth rydych wedi'i ddysgu o'r astudiaeth hon.**

cyfanswm